# The Carmarthenshire Antiquarian Society
# Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin
## Carmarthenshire's History Society/ Cymdeithas Hanes Sir Gâr

# NEWYDDION/NEWSLETTER -April, 2023

**www.carmants.org.uk_@carm_ant**
**https://www.facebook.com/The-Carmarthenshire-Antiquarian-Society-114354163677632**

***If you know of others who may be interested in joining the Society, or is a member who does not receive this newssheet, please invite them to contact our Membership Secretary, Mary Thorley, via** Carmantiquarians@gmail.com*

**- ANTIQUARIAN PROGRAMME –**

**Our next meeting is** *Gwendraeth Valley day* on 15th April, 10.30 – 4 p.m. led by Heather James, Robert Rhys, Eurig Davies et al..

We meet at Llandyfaelog Church (SN414118) and move to Llangyndeyrn Village Hall for hot drinks (£2 each) and lunch (bring your own or stay to eat at the Red Lion, Llandyfaelog). Our AGM will take place at 12.45 p.m. followed by a talk on *Coflwch Llangyndeyrn* and an optional trip to the standing stones and motte.

**- REPORTS –**



**March meeting:** Proved a very successful experiment in Llanarthne Village Hall. Edna Dale Jones, Robert Pugh and Tom Lloyd each brought a collection of fascinating artefacts for us to explore. They also gave brief talks about their collections. David Thorne brought an exhibition of the recently completed Llandeilo Gospels project and we had our C.A.S. stall on display with publications for sale. Peter Francis auctioneers funded the afternoon including tea and cakes. More than 50 attended, we gained several new members and sold some publications.

**Stori Caerfyrddin**: C.A.S. is working with Jenny Fox, Community Well-being and Events Officer for Carmarthen town on a new project.

Jenny writes: *Stori Caerfyrddin is a new initiative to bring the history of Carmarthen to the streets of our beloved Town. Carmarthen BID is funding the first phase of the project to enhance the visitor experience to the town, along with providing historic information to schools, local*

*individuals and groups. From Easter, Carmarthen's streets will begin to tell tales from our wonderful history. We are encouraging local historians, via The Carmarthenshire Antiquarian Society, to get involved so that Carmarthen can showcase all its culture and history.*

*Carmarthen BID is working in partnership with other groups, including The Carmarthenshire Antiquarian Society, and individuals to bring this project to life and welcome all contributions.*

*All stories will be shared in spaces around the town, taken to schools, and enriching lives with images and written information throughout Carmarthen.*

Carmarthen BID is also providing funding support for the Carmarthenshire Enlightenment project events in Carmarthen.

**Dylan Rees** has very kindly donated a box of *The Art of Gordon Stuart* co-authored by Dylan and Twm Gardner. It includes a biography of Gordon Stuart, plus excellent reproductions of a large number of his paintings. Copies may be purchased at £3.00 each (plus P&P at £3, if by post). I'll bring them to our indoor meetings for sale.

## - AROUND THE COUNTY –

**Talacharn Community History. Tuesday, 4th April, 7.30 p.m.** is members' evening, when three members give short presentations of their own findings. They will be:

Bruce Wallace: '*Armed affrays and riots in the parish of Llanfihangel Abercywyn*.'

Denize McIntyre: *'On your bike' - Laugharnies as economic migrants.'*

Siân Collins*: 'Tiding - re-imagining the past'.* Siân will have copies of her recent book available for purchase.

**Rembrandt Exhibition at the County Museum, Abergwili** – open until 23rd April

**The Friends of Carmarthen County Museum Committee** would like you to join us at our 34th AGM on **Saturday 8th of April** in the Bishops Palace Dining Room at the Museum in Abergwili Carmarthen, SA31 2JG. Light refreshments will be available during registration from twelve midday till 12:45pm. Our Key Speaker Mr Mark Drakeford First Minister for Wales will arrive at 1pm to address friends and guests. This will be followed by the AGM, and a viewing of a painting by Rembrandt called Saskia van Uhlenberg in Arcadian Costume on loan to the museum from the National Gallery in London until 23rd April.

**DARGANFOD – DISCOVERY 2023:** a celebration of new archaeological research in Wales Online conference, Saturday 1st April 2023 by Cambrian Archaeological Association in collaboration with Cardiff University: For more details and a booking link see the conference webpage at www.cambrians.org.uk

**History of the Welsh Bible exhibition**, Llanelli Library 3rd-8th April

**St Davids Cathedral: Lampeter Treasures Seminar Series:** Wednesday 5 April 2023, 2.00 – 4.00 pm

St Davids Cathedral is the most important medieval church building in Wales. Built on the site of St David's chief monastery, it has been a place of holiness and pilgrimage for over 800 years. Yet its history has been traumatic, with some parts standing in ruins for several centuries.

Mari James, the cathedral's library development officer, will describe the great church, as well as introducing some of the associated guidebooks. After the lecture, a selection of historic volumes will be on display in the Roderic Bowen Library and Archives.

This will be a hybrid event held in the Old Hall, UWTSD Lampeter, and on Microsoft Teams.

A booking link for the online version can be found here https://events.teams.microsoft.com/event/3dfa851e-ea8a-476a-a212-a54af3fbe14a@4e0f11f9-046e-4505-9cb8-db2152311e21. If you would like to book a seat in Lampeter, or you would like to know more, please email specialcollections@uwtsd.ac.uk. Please inform us if you have difficulties with mobility.

**Llanfihangel-ar-arth History Society:** Thu. 6 April, 7.30, Hen Ysgoldy Llanfihangel. A talk (bilingual) by Mr Alan Thomos '*Bywyd (Life of) Frank Lloyd Wright* (Plas Alltrodyn).

**Kidwelly History Society** Thursday 23rd February, 6.15 p.m at the John Burns Centre, Parc House, Kidwelly, SA17 5AB. Graham Davies will talk on *Aspects of Pembrey and Burry Port history*

## - WIDER COMMUNITY ENGAGEMENT –

### RECORDS OF CARMARTHENSHIRE CLERGY

At our Christmas lunch this year, our President Thomas Lloyd proposed a project for the Society to gather in lists of all the clergy of the historic parishes of the county. No small task, given that by 1900 with Victorian subdivisions of large rural parishes and towns gaining more than one church, there were well over a hundred. But with church closures and memories of historic parishes fading away, the names of the clergy who served them, often very dedicated to their calling and in the earlier periods the most learned person in the parish, should surely be worth recording. Some achieved fame, rising to cathedral deans and bishops, others wrote important books and church histories or became noted for conspicuous good works.

It is not unusual in a church to find a finely drawn and up to date list of all incumbents with their dates hanging on the wall. All that is required therefore is a photograph. Other lists can be found in church guides, local and parish histories and in the early volumes of the Society's transactions.

Where these fail, diocesan records can be researched and other historic sources in the County Archives and elsewhere.

This would be a long project, taking many years to complete. It was done for Pembrokeshire a hundred years ago, with the lists published in The West Wales Historical Transactions But if members were to take an interest in their own parish, this would be a great start.

You can contact our President on: lloyd.courthenry@gmail.com

***Historic Environment Action Plan | Brecon Beacons National Park Authority (beacons-npa.gov.uk)****. A draft of this plan has now been published and is open to feedback from the public*

*until Monday 10 April 2023.*
*The draft plan, and consultation form link for the consultation can be found here:*
***[Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol | Brecon Beacons National Park Authority (bannaubrycheiniog.org)]***
*Any advice or feedback on the draft Plan would be much appreciated,*
*Alice Thorne, on behalf of the Historic Environment Partnership, BBNP*
Alice Thorne BA (Hons) MCIfA Swyddog Treftadaeth (Archeoleg)/ Heritage Officer (Archaeology)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Brecon Beacons National Park Authority.

**A Llandeilo Gospels Interpretation Board** has been presented to the Carmarthenshire Archives. The project was jointly managed by the Carmarthenshire Antiquarian Society and the Welsh Place-Name Society. We thank the archive staff and the Carmarthen Library staff for their support. Leaflets are on display in Carmarthen Library and branch libraries in Llanelli, Llandeilo and Ammanford. They are also available in the museum in Abergwili. In Ceredigion leaflets have been placed at various locations in Lampeter, Llandysul and Aberystwyth.

## - RESEARCH INTERESTS –

*Use this space to share your current research interests, e.g. to seek further information from members*

*If you have any news or events or meetings planned for May, 2023, please email details to Peter Stopp, aandpstopp@gmail.com by 20th April for inclusion in the next newsletter*

# The Carmarthenshire Antiquarian Society
# Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin
## Carmarthenshire's History Society/ Cymdeithas Hanes Sir Gâr

# NEWYDDION/NEWSLETTER Ebrill, 2023

**www.carmants.org.uk @carm_ant**

https://www.facebook.com/The-Carmarthenshire-Antiquarian-Society-114354163677632

***Os gwyddoch am rywun a hoffai ymaelodi â'r Gymdeithas, neu'n gwybod am aelod nad yw'n derbyn y Newyddlen hon, gofynnwch iddynt,anfon gair at ein Hysgrifennydd Aelodaeth: Mary Thorley*** ar *Carmantiquarians@gmail.com*

## - RHAGLEN YR HYNAFIAETHWYR –

**Ein cyfarfod nesaf:** Diwrnod yng Nghwm Gwendraeth 15 Ebrill 10.30 - 4 pm. Arweinyddion: Heather James, Robert Rhys, Eurig Davies *et al*.

Byddwn yn cwrdd yn Eglwys Llandyfaelog (SN414118) ac y symud i Neuadd Bentref Llangyndeyrn am ddiod poeth (£2 y pen) a lluniaeth (dewch â thocyn neu cewch bryd yn y Llew Coch, Llandyfaelog). Bydd y Cyfarfod Blynyddol am 12.45 a sgwrs i ddilyn *Cofiwch Llangyndeyrn* a thaith, os dymunwch, at y meini hirion a'r mwnt.

## - ADRODDIADAU –

### Cyfarfod mis Mawrth:



Cafwyd prynhawn llwyddiannus dros ben yn Neuadd y Pentref, Llanarthne. Roedd dros hanner cant yn bresennol. Roedd gan Edna Dale Jones, Robert Pugh a Tom Lloyd amrywiaeth diddorol o hen bethau a defnyddiau casgladwy i sôn amdanyn nhw. Roedd gan David Thorne ddefnyddiau perthnasol i gynllun Efengylau Llandeilo. Llwyddwyd i ddenu aelodau newydd i'r Gymdeithas ac i rannu nwyddau, gwybodaeth a defnyddiau. Noddwyd yr achlysur gan Peter Francis Arwerthwyr Cyf

**Stori Caerfyrddin:** Mae'r Gymdeithas yn cydweithio â Jenny Fox, Swyddog Cymunedol Iechyd a Lles tref Caerfyrddin ar gynllun newydd. Yn ôl Jenny: Nod Stori Caerfyrddin yw cyflwyno agweddau ar hanes Caerfyrddin i bawb. Bydd Carmarthen BID yn ariannu rhan gyntaf cynllun sy'n anelu at wella profiad ymwelwyr â'r dref ac yn darparu gwybodaeth am ei hanes i ysgolion, unigolion a mudiadau. Wedi'r Pasg bydd strydoedd Caerfyrddin yn dechrau adrodd hanesion sy'n deillio o'n hanes ni ein hunain. Rydym yn annog haneswyr lleol i ymuno â'r gweithgarwch dan aden Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin, fel y gall tref Caerfyrddin arddangos ei diwylliant a'i hanes.

Bydd Carmarthen BID yn gweithio gydag amryw fudiadau, yr Hynafiaethwyr yn eu plith, i wireddu'r cynlluniau hyn a chyfoethogi bywydau ac unigolion.

Bydd Carmarthen BID yn noddi cynlluniau a drefnir yng Nghaerfyrddin gan Goleuni Sir Gâr.

Gwerthfawrogwn yn fawr haelioni **Dylan Rees** a gyflwynodd focs inni ar *The Art of Gordon Stewart* a grëwyd ar y cyd â Twm Gardner. Mae'n cynnwys bywgraffiad o Gordon Stewart ynghyd ag atgynyrchiadau safonol o lawer o'i luniau. Gellir prynu copïau am £3 (+ £3 cost lapio a phostio). Bydd copïau ar werth yng nghyfarfodydd dan do y Gymdeithas.

**- AR HYD AC AR LED –**

**Hanes Cymunedol Talacharn. MAWRTH, 4 EBRILL, 7.30 p.m.** Noson ar gyfer aelodau a bydd tri aelod yn rhoi sgwrs gryno am eu diddordebau nhw eu hunain.

Bruce Wallace: '*Armed affrays and riots in the parish of Llanfihangel Abercywyn.*'

Denize McIntyre: *'On your bike' - Laugharnies as economic migrants.'*

Siân Collins*: 'Tiding - re-imagining the past'.* Siân will have copies of her recent book available for purchase.

**Arddangosfa Rembrandt yn Amgueddfa'r Sir, Abergwili** – tan 23 Ebrill.

Mae **Pwyllgor Ffrindiau Amgueddfa'r Sir, Caerfyrddin** yn eich gwahodd i ymuno â ni yn ein 34ain Cyfarfod Blynyddol, Sadwrn 8 Ebrill yn Ystafell Fwyta Plas yr Esgob, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn ystod y cyfnod cofrestru, sef rhwng canol dydd a 12:45pm. Bydd Mr Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru yn cyrraedd am 1pm i annerch ffrindiau a gwesteion. Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn dilyn a chyfle i weld y darlun gan Rembrandt sef Saskia van Uhlenberg mewn Gwisg Wledig sydd yn yr amgueddfa ar fenthyg o'r Oriel Genedlaethol yn Llundain tan 23 Ebrill.

**Clwb Hanes Llanfihangel-ar-arth: Nos Iau 6 Ebrill 2023, 7.30**, Hen Ysgoldy Llanfihangel. Sgwrs (ddwyieithog) gan Mr Alan Thomos '*Bywyd Frank Lloyd Wright* (Plas Alltrodyn).

**DARGANFOD – DISCOVERY 2023:** dathlu ymchwil archeolegol diweddar yng Nghymru. Gwegynhadledd Cymdeithas Hynafiaethau Cymru gyda chydweithrediad Prifysgol Caerdydd. **Sadwrn 1 Ebrill 2023**: Mae rhagor o fanylion a dolen gofrestru ar wefan y gynhadledd www.cambrians.org.uk

**Hanes y Beibl Cymraeg Arddangosfa Llyfrgell Llanelli 3-8 Ebrill**

Eglwys Gadeiriol Tyddewi: Cyfres Trysorau Llambed: Mercher 5 Ebrill 2023, 2.00 – 4.00 pm

Eglwys Gadeiriol Tyddewi yw'r adeilad eglwysig canoloesol pwysicaf yng Nghymru. Fe'i hadeiladwyd ar safle prif fynachdy Dewi Sant ac mae wedi bod yn fan sanctaidd ac yn gyrchfan pererindodau am dros 800 mlynedd. Ond mae'i hanes wedi bod yn drawmatig gyda rhai rhannau ohoni'n sefyll yn adfeilion am ganrifoedd.

Bydd Mari James, swyddog datblygu llyfrgell y gadeirlan yn disgrifio'r eglwys fawr yn ogystal â'n cyflwyno i rai llyfrau tywys cysylltiedig. Yn dilyn y ddarlith, bydd rhai cyfrolau hanesyddol yn cael eu harddangos yn Llyfrgell ac Archifau Roderick Bowen.

Traddoldir y ddarlith yn yr Hen Neuadd CPDS Llambed ac ar lein.

Ceir dolen gyswllt er mwyn gwylio ar lein yma https://events.teams.microsoft.com/event/3dfa851e-ea8a-476a-a212-a54af3fbe14a@4e0f11f9-046e-4505-9cb8-db2152311e21. Er mwyn llogi sedd yn y neuadd neu am ragor o wybodaeth ewch at specialcollections@uwtsd.ac.uk. Rhowch wybod am unrhyw anawsterau symudedd.

**COFNODION AM GLERIGWYR SIR GÂR**

Yn y ginio Nadolig awgrymodd ein Llywydd, Thomas Lloyd, bod y Gymdeithas yn mynd ati i grynhoi a chofnodi rhestrau o'r holl glerigwyr sydd wedi gwasanaethu ym mhlwyfi hanesyddol y sir. Bydd hynny'n gryn dasg o gofio am yr ad-drefnu a fu ar blwyfi gwledig a sawl eglwys yn dod yn rhan o etifeddiaeth y trefi erbyn 1900. Rhaid bod ymhell dros gant o eglwysi i'w hystyried gennym. A nifer o eglwysi wedi cau erbyn hyn a'r cof am y plwyfi hanesyddol yn pylu, mae'n siwr y bydd yn fuddiol i gofnodi enwau'r clerigwyr diwyd ac ymroddgar a fu'n gwasanaethu ynddyn nhw.Mewn cyfnod cynnar, dyma'r gŵr mwyaf dysgedig ym mhob plwyf. Daeth bri i rai a gwelwyd eu dyrchafu'n ddeoniaid ac esgobion. Daeth eraill yn awduron ac yn haneswyr o bwys neu ennill clod a chydnabyddiaeth am eu gweithredoedd da.

Mae'n gyffredin gweld rhestr gain hollol gyfredol o bob deiliad ynghyd â chyfnod ei wasanaeth ar wal yr eglwys. Yr unig beth sydd angen ei wneud, felly, yw tynnu llun o hwnnw. Mae rhestrau eraill wedi'u cynnwys mewn taflenni, mewn cyfrolau hanes lleol ac yn rhifynnau cynnar Trafodion y Gymdeithas.

Mae cofnodion yr esgobaeth a'r defnyddiau hanesyddol sydd yn Archifdy'r Sir a safleoedd eraill yn adnoddau ychwanegol i'w hymchwilio.

Rhaid ystyried hwn yn gynllun dros hir dymor. Cwblhawyd y dasg ar gyfer Sir Benfro ganrif yn ôl a chyhoeddi'r cyfan yn The West Wales Historical Transactions. Petai ein haelodau ni'n mynd ati o ddifri yn eu plwyfi nhw eu hunain, byddai hynny'n hwb mawr i'r cynllun.

Gallwch gysylltu â'n Llywydd ar : lloyd.courthenry@gmail.com

Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Hanesyddol / Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (beacons-npa.gov.uk )Cyhoeddwyd drafft o'r cynllun hwn a chroesewir atborth gan y cyhoedd tan Llun 10 Ebrill 2023. Mae'r cynllun drafft a'r cyswllt i'r ffurflen ymgynghori yma: Cynllun gweithredu'r amgylchedd hanesyddol / Awdurdod Parc Cenedlaethol bannau Brycheiniog (bannau brycheiniog.org) Gwerthfawrogir yn fawr atborth neu gyngor am y cynllun gweithredu.

Alice Thorne, ar ran Partneriaeth yr amgylchedd hanesyddol BBNP.

Alice Thorne BA (Hons) MCIfA (Swyddog Treftadaeth (Archaeoleg) Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog /

Cyflwynwyd **Bwrdd Dehongli Efengylau Llandeilo** i Archifau Caerfyrddin. Trefnwyd y cynllun ar y cyd rhwng Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Diolch i staff yr Archifdy a staff Llyfrgell Caerfyrddin am eu cefnogaeth. Mae taflenni i'w gweld yn Llyfrgell Caerfyrddin a changhennau'r llyfrgell yn Llanelli, Llandeilo a Rhydaman yn yr Amgueddfa yn Abergwili. Yng Ngheredigion ceir taflenni mewn amryw leoliadau yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberystwyth.

## - Diddordebau ymchwil –

Defnyddiwch ofod y Newyddlen i rannu eich diddordebau ymchwil cyfredol, e.e. er mwyn chwilio am ragor o wybodaeth gan aelodau. Cyswllt: Peter Stopp aandpstopp@gmail.com

*Os oes gennych newyddion neu gyfarfodydd wedi eu trefnu ar gyfer mis Mai 2023, ebostiwch y manylion erbyn 20 Ebrill at Peter Stopp, aandpstopp@gmail.com er mwyn eu cynnwys yn Newyddlen mis Mawrth.*